**Ymateb S4C i ymgynghoriad Ofcom:**

**Sicrhau bod gwasanaethau ar alw ar gael: Ymgynghoriad pellach i lywio gofynion i wneud Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alw yn fwy hygyrch i'r rhai ag anawsterau golwg a/neu glyw**

Nid ydym wedi ceisio ateb pob cwestiwn ond wedi canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar S4C yn benodol.

***Cefndir***
Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg yw S4C sy'n darparu sianel deledu llinol o'r enw S4C a gwasanaeth rhaglenni ar alw o'r enw S4C Clic (Clic). Mae'r rhan fwyaf o gynnwys llinol S4C hefyd ar gael ar alw ar BBC iPlayer, drwy'r cytundeb partneriaeth sydd gan S4C gyda'r BBC.

Mae'r targedau gwasanaethau mynediad canlynol gan S4C ar gyfer ei gwasanaeth teledu:
Isdeitlo: 53.3%
Sain ddisgrifio: 10%
Arwyddo: 5%

Gosodir targedau S4C ar Lefel Dau, yn seiliedig ar gostau'r ddarpariaeth fel canran o drosiant perthnasol S4C.

Mae'r rhaglenni gyda gwasanaethau mynediad ar S4C hefyd ar gael gyda gwasanaethau mynediad ar Clic. Mae S4C hefyd yn cynnig isdeitlau ar setiau bocs o'r archif sydd ar gael ar Clic yn unig.

***Cynigion Ofcom***
Mae S4C yn croesawu'n gyffredinol gynigion Ofcom i gyflwyno rheolau hygyrchedd newydd ar gyfer gwasanaethau ar alw, ond hoffen ni sicrhau y byddai'r targed Lefel Dau ar gyfer isdeitlo a nodir uchod hefyd yn berthnasol i wasanaethau ar alw S4C. Fodd bynnag, nid yw'n glir o gynigion Ofcom a fyddai hyn yn digwydd.

Mae Ofcom yn cynnig ym mharagraff 3.13 y "dylai darparwyr gael eu heithrio o'r gofynion (neu gael targedau is) pan fo'r gost o fodloni'r gofynion yn fwy nag 1% o'u trosiant cyffredinol".

Wrth gyfrifo'r 1%, mae Ofcom yn cyfeirio at 'gostau'r ddarpariaeth ar draws yr holl wasanaethau a llwyfannau (nad ydynt eisoes wedi eu heithrio) o'u cymharu â throsiant cyffredinol' (t.29). Rydyn ni'n tybio bod hyn yn cyfeirio at yr holl wasanaethau ar alw ond nid yw'n ymddangos ei fod yn cynnwys gwasanaethau teledu darparwr.

Y canlyniad yw y gallai fod yn ofynnol i S4C wario hyd at 1% o'i throsiant ar wasanaethau mynediad i'r teledu a hefyd hyd at 1% ar wasanaethau mynediad ODPS oni chynigir targed Lefel Dau hefyd ar gyfer ei ODPS.

Er y byddai costau isdeitlo teledu ar Lefel Un (80%) yn cynyddu costau S4C yn uwch na 1% o'r trosiant, ni fyddai hyn o reidrwydd yn dilyn ar gyfer Clic. Gan fod S4C i raddau helaeth yn ail-bwrpasu ei chynnwys teledu gyda gwasanaethau mynediad ar gyfer y gwasanaeth Clic, mae'r costau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau mynediad ar Clic yn gymharol isel. Fodd bynnag, heb dargedau cyson ar draws platfformau llinol ac ar alw, gallai S4C gael targed isdeitlo o 53.3% i'w gwasanaeth llinol a tharged o 80% i'w ODPS. Byddai hyn yn golygu cynnydd o 50% yn y cynnwys sy'n ofynnol i'w isdeitlo a chynnydd cyfatebol mewn costau.

Byddai hyn yn rhoi S4C o dan anfantais sylweddol o'i chymharu â:

- Darlledwyr teledu â thargedau Lefel Un, gan y gallent, mae'n debyg, gyflawni eu targed ODPS cyfan drwy ail-bwrpasu cynnwys a ddarlledwyd eisoes.
- Darparwyr ar alw yn unig, gan fod cyfanswm eu hymrwymiad cost wedi'i gapio ar 1%.

Fodd bynnag, gallai S4C wynebu costau o hyd at 1% o'i throsiant ar gyfer gwasanaethau mynediad i'r teledu ac 1% arall ar gyfer ei gwasanaethau mynediad ODPS.

Er mwyn sicrhau nad yw S4C yn cael ei heffeithio'n anghymesur, credwn y dylai S4C fod yn gymwys i gael targed Lefel Dau ar ei ODPS cyhyd ag y bo'n gymwys i gael targed Lefel Dau ar gyfer ei gwasanaeth teledu.

Pe bai'n ddefnyddiol gweld enghraifft ymarferol o'r goblygiadau o ran costau, bydden ni’n barod i ddarparu hyn yn gyfrinachol.

Gan gymryd bod S4C yn gymwys i gael targed isdeitlo Lefel Dau ar gyfer ei gwasanaethau ar alw, dylai hyn fod yn berthnasol hefyd i gynnwys ar alw S4C ar yr iPlayer. Yn ogystal, dyw hi ddim yn bosib ar hyn o bryd i S4C ddarparu cynnwys wedi ei arwyddo a’i sain ddisgrifio ar yr iPlayer am resymau technegol. Sianel annibynnol yw S4C ac mae ei chynnwys ar alw ar gael ar yr iPlayer drwy drefniant cytundebol. S4C sy'n gyfrifol yn olygyddol am y cynnwys hwnnw. Hoffen ni sicrhau nad yw'r targedau gwasanaethau mynediad a osodwyd ar gyfer gwasanaethau ar alw'r BBC (gan gynnwys yr iPlayer) yn berthnasol i gynnwys S4C ar y llwyfan.

*S4C, 21.09.2020*